Meri Huws
Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

Y Gwir Anrhydeddus Carwyn Jones AC
Prif Weinidog
Llywodraeth Cymru
5ed Llawr
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1NA

13/01/2015

Annwyl Brif Weinidog,

Derbyn Cymeradwyaeth Gweinidogion Cymru i Bolisi Gorfodi Comisiynydd y Gymraeg – Adran 108 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

Ysgrifennaf atoch mewn cysylltiad â pholisi gorfodi Comisiynydd y Gymraeg yn gofyn i chi wneud tri pheth. Mae'r llythyr hwn yn ymhelaethu ar y pethau hynny.

Byddwch yn ymwybodol bod rhaid i Gomisiynydd y Gymraeg lunio polisi gorfodi, yn unol ag Adran 108(1) Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (Mesur y Gymraeg).

Dogfen yw'r polisi gorfodi sy'n rhoi cyngor a gwybodaeth ar y ffordd y bwriadaf fynd ati i arfer fy swyddogaethau o dan Ran 5 Mesur y Gymraeg. Mae Adran 108(4) Mesur y Gymraeg yn nodi *'Ni chaniateir i'r Comisiynydd lunio neu ddiwygio'r ddogfen polisi gorfodi heb gymeradwyaeth Gweinidogion Cymru.'* Mae copi o fy mholisi gorfodi wedi ei atodi i'r llythyr.

Prif bwrpas y llythyr hwn yw gofyn am gymeradwyaeth Gweinidogion Cymru i'r polisi gorfodi yr wyf wedi ei baratoi (amgaead 1). Gwyddoch, o'm gohebiaeth blaenorol, mod i wedi ymgynghori ar bolisi gorfodi drafft yn ystod Hydref a Thachwedd 2014. Derbyniwyd sylwadau gan 47 o ymatebwyr ar y polisi hwnnw fel rhan o'r ymgynghoriad a bu i mi ymgynghori hefyd gyda'r Panel Cynghori. Rwyf wedi ystyried y sylwadau i gyd, ac addasu'r polisi mewn ymateb i sylwadau lle roedd yn briodol gwneud hynny. **Byddwn yn falch o dderbyn cymeradwyaeth buan i'r polisi gorfodi fel y'i diwygiwyd os gwelwch yn dda.**

Comisiynydd y Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5–7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd CF10 1AT

0845 6033 221
post@comisiynyddygymraeg.org
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg

comisiynyddygymraeg.org

Welsh Language Commissioner
Market Chambers
5–7 St Mary Street
Cardiff CF10 1AT

0845 6033 221
post@welshlanguagecommissioner.org
Correspondence welcomed in Welsh and English

welshlanguagecommissioner.org

Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Yn dilyn cyfnod ymgynghori ar y polisi gorfodi drafft bu i mi dderbyn cais gan yr Archwilydd Cyffredinol yn awgrymu ei bod yn angenrheidiol, yn rhinwedd ein swyddogaethau, newid statws y berthynas sy'n bodoli rhwng yr Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru â mi. Byddwn yn ddiolchgar pe byddech yn cyflwyno'r gorchmynion angenrheidiol o dan y Mesur er mwyn i hynny ddigwydd. Mae'r gofynion fel a ganlyn:-

Eglurodd yr Archwilydd bod y cwmpas i'r Comisiynydd weithio gyda'r Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru yn cael ei gyfyngu gan adran 22 o Fesur 2011. Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol na Swyddfa Archwilio Cymru wedi'u henwi fel "person a ganiateir" o dan adran 22 (y pŵer i ddatgelu gwybodaeth), sy'n golygu bod yna waharddiad ar ddatgelu gwybodaeth rhwng y Comisiynydd a'r Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru.

Deallaf bod staff Swyddfa Archwilio Cymru wedi ceisio gwneud iawn am hyn yn flaenorol drwy awgrymu newidiadau addas i swyddogion Llywodraeth Cymru ac Aelodau Cynulliad, ond nid yw'r sefyllfa wedi newid.

Mae adran 22(10) o Fesur 2011 yn nodi y gall Gweinidogion Cymru newid y diffiniad o "berson a ganiateir" trwy ychwanegu person at yr adran hon, ymysg pethau eraill. Wrth i Weinidogion Cymru roi sylw i'r polisi gorfodi byddai'n ddefnyddiol ychwanegu'r Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru at y rhestr o bersonau a ganiateir.

Yn yr un modd mae Adran 21 Mesur y Gymraeg yn cyfeirio at weithio'n gyfochrog ag ombwdsmyn, comisiynwyr ayyb. Yn y cyswllt hwn mae adran 21(7) Mesur y Gymraeg yn nodi y caiff Gweinidogion Cymru, drwy orchymyn, ddiwygio'r diffiniad o'r rhai y gall Comisiynydd y Gymraeg weithio'n gyfochrog â hwy. Byddai'n fanteisiol ychwanegu'r Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru at y rhestr fel y gall fy swyddogion gydweithio yn ôl yr angen gyda sefydliad sydd yn ymdrin yn barod â nifer o'r personau perthnasol sydd yn dod o dan rychwant Mesur y Gymraeg.

Pwysleisiaf bwysigrwydd gwneud newidiadau mewn cysylltiad â statws perthynas y Comisiynydd y Gymraeg a'r Archwilydd Cyffredinol, a Swyddfa Archwilio Cymru, fel rhan o broses cymeradwyo'r Polisi Gorfodi er mwyn gallu adlewyrchu'r newid yn yr adran berthnasol o'r polisi hwnnw.

Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Yn olaf, rwy'n ymwybodol bod angen cyflwyno gorchymyn cychwyn ar gyfer Rhan 5 Mesur y Gymraeg. A fyddai modd i chi gadarnhau'r amserlen ar gyfer cyflwyno'r gorchymyn hwn os gwelwch yn dda.

Mawr obeithiaf y bydd modd symud ymlaen gyda'r camau uchod o fewn yr wythnosau nesaf fel y gallaf gyhoeddi'r polisi gorfodi terfynol cyn diwedd y flwyddyn ariannol bresennol.

Yr eiddoch yn gywir,

Meri Huws
Comisiynydd y Gymraeg

Cc: [redacted] Llywodraeth Cymru
[redacted]

Amg: [redacted]